

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 15 Tachwedd 2018 am 1830

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Mair Leverett
Y Cynghorydd Gwen Griffith
Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Huw P Jones
Y Cynghorydd Mair Jones
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Jones.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Angharad Williams a Gabrielle Wyn.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2018.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Llwybr beics pentref Llandygai- dal i ddisgwyl diweddariad gan Gyngor Gwynedd.

3.2 Mynydd Llandygai-ceir yn gyrru. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd bod angen mwy o arwyddion ar hyd y ffordd, ac hefyd rhwystrau cyflymder. Aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd yn fodlon cyfarfod ar y safle i drafod y problemau. Y Clerc i wahodd yr heddlu i gyfarfod ar y safle.

3.3 Tynal Tywyll-y goleuadau/lampau heb gael eu newid. Y clerch wedi holi Cyngor Gwynedd am eu hamserlen i ymgymryd â'r gwaith. Dim ymateb hyd yn hyn.

3.4 Tarmac yn codi yn Bro Syr Ifor-y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Problem hefyd yn Erw Faen.

3.5 Wal wedi ei malu ar Ffordd Tan Rhiw yn dilyn damwain car. Gwaith blêr o'i roi yn ôl at ei gilydd. Dim ymateb hyd yn hyn gan Gyngor Gwynedd.

3.6 Ffens wedi disgyn ar y Lôn Las wrth gerdded tuag at y dwnnel. Y Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, ond heb gael ymateb.

3.7 Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – dim angen cais cynllunio ar gyfer gosod y lloches. Y Clerc i wneud ymholiadau pellach.

3.8 Goleuadau stryd Mynydd Llandygai – problemau gyda rhai ohonynt
Tan y Bwlch – golau yn diffodd am 9.30yh

Llwybr Main – golau ddim yn gweithio

Llwybr Main – y golau sydd ar yr arwydd ‘ Ildiwch’ yn fflachio. Dim ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd.

- 3.9** Problemau gor-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig. Y ffordd rhwng Llwybr Main a Tan y Bwlch yn cael ei ddefnyddio fel trac rasio. Angen cynigion i arafu'r traffig. Y Cyng. Richard Fraser-Williams wedi sôn yn cyfarfod y llywodraethwyr am y syniad o'r plant i wneud posteri i'w gosod ar y ffordd, yr aelodau yn hoff o'r syniad. . Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd a'r heddlu unwaith eto. Penderfynwyd gwahodd Dafydd Wyn Williams o Gyngor Gwynedd i un o'n Cyfarfodydd i drafod materion yn y plwy.
- 3.10** Arwydd Llandygai – angen cael diweddariad.
- 3.11** Hysbysfwrdd Llandygai – wedi cael pris am un newydd metel. Penderfynwyd bydd y Clerc yn ei archebu.
- 3.12** Diffibriliwr – y Clerc i archebu defib ar gyfer Tregarth a gwneud ymholiadau am osod un ar Neuadd Talgai.
- 3.13** Llwybr o Parc fyny at Lôn y Grug – angen sylw. Y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu hefo'r contractwr.
- 3.14** Lôn Hermon a Lôn y Grug – baw ci dal yn broblem yno. Angen hysbysu Cyngor Gwynedd unwaith eto, a chael warden i ymweld cyn gynted a bo modd.
- 3.15** Arloesi Gwynedd Wledig - prosiect wi-fi cymunedol. Ffurflenni yn mynegi diddordeb y Cyngor wedi eu cyflwyno.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2018'

Cyflwynwyd: llythyr gan Cylch yr Iaith ynglyn a thwristiaeth yng Ngwynedd.

Penderfynwyd bod y Cyngor yn gefnogol o gynnwys y ddogfen a'r argymhellion ac am anfon llythyr at Gyngor Gwynedd a'r aelodau lleol.

Cyflwynwyd: e-bost gan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn – gweithdy ynglŷn a'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym Modelwyddan 30 Tachwedd 2018. Neb ar gael i fynychu.

Cyflwynwyd: e-bost gan e-bost gan Swyddfa Archwilio Cymru- hysbysiad bod yr archwiliad wedi ei amodi. Trafodwyd yr holl bwyntiau oedd wedi eu codi.

Cyflwynwyd: e-bost gan Gyngor Gwynedd- holiadur toiledau cyhoeddus. Bydd y wybodaeth sy'n cael ei ddarparu yn helpu adeiladu darlun o anghenion y gymuned. Pawb i ymateb fel unigolion.

Cyflwynwyd: e-bost gan Gyngor Gwynedd-hysbysiad o waith arwynebu'r ffordd, Ystad Ddiwydiannol Coed y Parc, Bethesda yn ystod mis Rhagfyr. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd: e-bost gan Sian Gwenllian ynglŷn a chyfarfod cyhoeddus i drafod y broblem o ddiffyg cysylltiad band eang cyflym yn yr ardal, 29 Tachwedd 2018 am 7.30yh yn Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd, Bangor. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd: llythyr gan Partneriaeth Ogwen. Yn dilyn adolygiad o strwythyr staffio'r Bartneriaeth mae cynnig bod Bethan yn clericio cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandygai o fis Ionawr 2019 ymlaen. Pawb yn fodlon gyda'r cynnig.

5. Gwaith y mis

5.1 Gwaith glanhau grisiau a cysgodfannau'r ward angen eu glanhau-y Cyng. Dafydd Owen i gysylltu gyda'r contractwr.

5.2 Problem gyda peipan yn y ffos ar Llwybr 25.

5.3 Polyn Scottish Power – gwyntoedd cryfion yn ddiweddar wedi achosi difrod i un o bolion trydan Scottish Power, Lon y Wern, Tregarth. Y Clerc wedi hysbysu Scottish Power i ddod i'w drin.

5.4 Gwliau – pob un yn yr ardal angen ei lanhau. Y Clerc i holi hefyd pryd ac faint o aml maent ar rhaglen waith y Cyngor.

5.5 Allt yr Ocar – angen bin sbwriel newydd.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Grŵp Cyswllt Chwarel y Penrhyn- adroddwyd bod y chwarel bellach yn cael ei redeg gan The Breeden Company ac mai Mark Hodgkinson yw'r rheolwr. Diolchwyd i'r Chwarel am eu rhodd o lechi i'r ganolfan yn Mynydd Llandygai i drwsio'r tô yn dilyn difrod o ganlyniad y storm.

Adroddwyd hefyd bod Zipworld bellach yn cyflogi ar gytundebau parhaol ac nid ar gytundeb 'sero awr'.

Canolfan Tregarth – cyfarfod heb fod.

Ysgol Bodfeurig – adroddwyd bod swydd y brifathrawes wedi ei wneud yn barhaol, ac bod yna dal drafodaethau ynglŷn a uno gyda Ysgol Tregarth.

Partneriaeth Ogwen – pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig i'w diweddarau ar brosectiau'r Bartneriaeth. Yr aelodau yn falch iawn o Bartneriaeth Ogwen ac yn sylweddoli'r llwyth gwaith.

7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

7.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Hydref.

7.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

8. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol:

Clwb Ieuenctid Mynydd Llandygai

£1000.00

Net World Sports Ltd

£307.94

9. Sedd wag Ward Mynydd Llandygai

Dim diddordeb ar hyn o bryd, yr hysbyseb yn cael ei adnewyddu bob tair wythnos.

10. Penderfyniadau Cynllunio

C18/0123/16/TC

Spring Cottage, Carreg y Fedwen, Sling
Cais tystysgrif cyfreithloni defnydd fel
annedd breswyl Defnydd Dosbarth C3
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd.

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

NP3/16/10C

Fferm Pentre, Nant Ffrancon
Pâr o feudai-newid defnydd tir i
gynnwys 5 lle parcio, cadw
deunyddiau, gwaith peirianyddol a
tirlunio.

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0657/16/LL

Afon Galedffrwd, Mynydd Llandygai
Cynllun trydanol

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau.

C18/0665/16/LL

The Lodge, Mynydd Llandygai
Dymchwel y modurdy presennol a
chodi modurdy dwbl gyda gweithdy
uwchben yn ei le

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau

NP3/16/28

Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon,
Bethesda

Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i
gladio â choed

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0170/16/LL

Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth
Dymchwel estyniad unllawr presennol
(ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei
le

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0169/16/CR

Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth
Dymchwel estyniad unllawr presennol
(ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei
le

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0736/16/LL

Fferm Dinas Caravan Park, Tregarth
Estyniadau a newidiadau ynghyd ag
ail-wampio cyffredinol a gwaith
adnewyddu i floc toiledau presennol
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd.

C18/0746/16/LL

Vestry, Llys Owen, Tregarth
Dymchwel yr adeilad presennol a
chodi uned breswyl fasnachol agored
ac uned breswyl fforddiadwy newydd
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0817/16/LL

Gateway Park, Stad Ddiwydiannol
Llandygai, Bangor
Creu unedau diwydiannol ychwanegol
oddi fewn i'r adeilad presennol,
llecynnau parcio ychwanegol ynghyd a
newid edrychiad allanol yr adeilad
Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau.

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.
Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0848/16/LL

17 Llwybrmain, Mynydd Llandygai
Estyniad cefn i'r annedd
Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0837/16/LL

The Old Port Office, Porth Penrhyn,
Bangor
Newid defnydd cyn swyddfa yn
defnydd manwerthu bwyd môr
Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau.

C18/0836/16/CR

The Oldest Port Office, Porth Penrhyn,
Bangor
Addasiadau mewnol i'r adeilad
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd.

C18/0767/25/LL

Coed Wern Tŷ Gwyn – Glasinfryn
Lleoli 40 uned llety gwyliau

Penderfyniad: Dim penderfyniad hyd
yn hyn.

11. Ceisiadau Cynllunio

C18/0960/16/LL

Capel Chwarel Goch, Tregarth
Codi rhodfa dihangfa dân i gysylltu a
grisiau i'r ddaear.

Penderfyniad: Cefnogi

C18/1026/16/LL

Pen y Llyn, Mynydd Llandygai
Creu menage at ddefnydd personol

Penderfyniad: Cefnogi

12. Unrhyw fater brys arall

Cof-golofn, Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai – ysgrifen yn uniaith Saesneg. Y Cyng.
Dafydd Owen am wneud ymholiadau gyda'r Adran Cynllunio.